***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Paragraff 12 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

ATODLEN 8

SEILIAU RHEOLI YSTAD

**RHAN 2**

CYMERADWYO CYNLLUNIAU AILDDATBLYGU AT DDIBENION SAIL B

*Hysbysiad i ddeiliaid contract a effeithir*

12 (1) Os yw landlord yn bwriadu gwneud cais i Weinidogion Cymru gymeradwyo cynllun neu gymeradwyo amrywiad i gynllun a gymeradwywyd, rhaid i'r landlord roi hysbysiad i ddeiliad y contract o dan unrhyw gontract meddiannaeth a effeithir.

(2) Effeithir ar gontract meddiannaeth os yw'r cynnig yn effeithio ar yr annedd sy'n ddarostyngedig iddo.

(3) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan—

(a) prif nodweddion y cynllun arfaethedig, neu brif nodweddion yr amrywiadau arfaethedig i'r cynllun a gymeradwywyd,

(b) bod y landlord yn bwriadu gwneud cais i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun neu'r amrywiad, ac

(c) mai effaith cymeradwyaeth o'r fath, oherwydd adran 160 a Sail B o'r seiliau rheoli ystad, fydd galluogi'r landlord i wneud hawliad meddiant mewn perthynas â'r annedd.

(4) Rhaid i'r hysbysiad hefyd hysbysu deiliad y contract—

(a) y caiff wneud sylwadau i'r landlord ynglŷn â'r cynnig, a

(b) bod rhaid gwneud y sylwadau cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad iddo (neu unrhyw gyfnod hwy a bennir gan y landlord yn yr hysbysiad).

(5) Ni chaiff y landlord wneud cais i Weinidogion Cymru hyd nes bod y landlord wedi ystyried unrhyw sylwadau a wnaed cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(6) Mae is-baragraff (7) yn gymwys yn achos landlord o dan gontract meddiannaeth y byddai (oni bai am y paragraff hwn) yn ofynnol o dan adran 234 iddo ymgynghori â deiliad y contract ynglŷn â chynllun ailddatblygu (neu amrywio cynllun ailddatblygu).

(7) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys, bydd y paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas ag ymgynghoriad y landlord â deiliad y contract yn lle adran 234.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 8 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** Atod. 8 para. 12 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Paragraff 12 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
- s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
- s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
- s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5